

Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg yn Estyn 2023-2024

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Mae'r deuddegfed adroddiad blynyddol hwn yn cynnwys crynodeb o gynnydd a wnaed rhwng Mawrth 2023 ac Ebrill 2024 yn erbyn y blaenoriaethau a nodwyd yn adroddiad y llynedd.

Blaenoriaethau ar gyfer 2023-2024

- 1. Defnyddio llais staff mewn modd cynhwysol a rhagweithiol wrth ddatblygu ein gwasanaethau a'n harlwy Gymraeg yn fewnol ac yn allanol, fel ei gilydd.**
- 2. Parhau i fireinio ein hymagwedd at fesur cymwyseddau aelodau staff yn y Gymraeg i lywio gofynion datblygiad proffesiynol yn y dyfodol yn fwy effeithlon.**
- 3. Datblygu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr sy'n cyd-fynd yn dda ag anghenion ieithyddol a phroffesiynol unigolion a'r sefydliad.**
- 4. Gweithredu pecyn cymorth ARFer o 2023 ymlaen, trwy ei gynnig i'r holl gyflogeion ar draws y sefydliad, er mwyn defnyddio medrau Gymraeg siaradwyr rhugl a dysgwyr o fewn y sefydliad, a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach. (Gweler Atodiad 7 am ddiffiniad o brosiect ARFer).**
- 5. Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gyda'r rhai rydym ni'n gweithio gyda nhw, e.e. darparwyr rydym yn eu harolygu, ein hadborth i ymgynghoriadau cyhoeddus ac wrth gontractio ag asiantaethau trydydd parti.**

Cyflwyniad

Rydym wedi gwneud cynnydd cymysg eleni, lle bo'n ymarferol bosibl, o ran y blaenoriaethau uchod yn ystod y flwyddyn, a bwriad yr adroddiad hwn yw adlewyrchu ac enghreifftio'r cynnydd hwnnw.

- 1. Defnyddio llais staff mewn modd cynhwysol a rhagweithiol wrth ddatblygu ein gwasanaethau a'n harlwy Gymraeg yn fewnol ac yn allanol, fel ei gilydd**

Rydym wedi gwneud mwy o ddefnydd o'n cyhoeddiad cyfathrebu mewnol, Llais, i roi gwybod i staff am ddatblygiadau a gofyn am unrhyw awgrymiadau i wella ein gwasanaeth. Yn ychwanegol, cyflwynom opsiwn ar ein mewnwrwyd a oedd yn galluogi staff i dynnu sylw at faterion ynglŷn â'r Gymraeg yn fewnol, ac yn ein trafodion allanol.

- 2. Parhau i fireinio ein hymagwedd at fesur cymwyseddau aelodau staff yn y Gymraeg i lywio gofynion datblygiad proffesiynol yn y dyfodol yn fwy effeithlon**

Yn ystod y flwyddyn adrodd, am yr ail flwyddyn, dosbarthom arolwg ar-lein i bob aelod o staff ei lenwi. Roedd y gyfradd ymateb yn dda iawn, a derbyniom gyfanswm o 121 o ymatebion o 138 ymateb posibl. O'n haelodau staff a ymatebodd i'r arolwg, mynegodd 53% ddiddordeb mewn dysgu Gymraeg neu wella'u medrau Gymraeg presennol.

Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfres o gwestiynau yn gofyn i staff hunanasesu eu gallu yn y Gymraeg o ran llafaredd (gwrando a siarad), darllen ac ysgrifennu.

Gofynnwyd iddynt raddio eu hunain ar raddfa chwe phwynt. Roedd y raddfa a ddefnyddiwyd wedi'i seilio ar lefelau a dderbynnir yn rhyngwladol y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR) a'r lefelau a ddefnyddir gan y sector Cymraeg i Oedolion (Cyn-mynediad neu nifer y rhai ar gyrsiau Cymraeg, Mynediad, Sylfaen, Canolraddol, Uwch, Hyfedredd) sydd hefyd wedi'u seilio ar y CEFR.

Yn ychwanegol, gofynnem i aelodau staff a oeddent yn defnyddio eu medrau Cymraeg yn y gwaith, ac os felly, sut, yn ogystal ag a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn cael hyfforddiant i wella'u medrau Cymraeg.

Llafaredd

Hunanasesodd 48 aelod o staff eu hunain ar 5 neu 6 ar y raddfa (h.y. Lefelau B2 – C1/C2 ar y CEFR) ynghylch llafaredd. Mae hyn yn cynrychioli cyfanswm o 40% o'r aelodau staff hynny a lenwodd yr arolwg.

Darllen

Hunanasesodd 49 (41%) aelod o staff eu hunain ar lefelau 5 neu 6 ar y raddfa.

Ysgrifennu

Hunanasesodd 45 aelod o staff eu hunain ar lefelau 5 neu 6 ar y raddfa.

Mae gennym nifer fach o staff sy'n hunanasesu ar Lefel 4 neu B1 (sydd fwy neu lai gyfwerth â TGAU ail iaith).

Mae dros hanner ein staff ar lefelau is (islaw lefelau TGAU ail iaith), a byddai angen amser a buddsoddiad sylweddol i'w troi'n siaradwyr rhugl gweithredol.

3. Datblygu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr sy'n cyd-fynd yn dda ag anghenion ieithyddol a phroffesiynol unigolion a'r sefydliad.

Oherwydd materion staffio, ni chyflawnwyd hyn yn ystod y flwyddyn adrodd a gostyngodd nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Cynhaliom un dosbarth mewnol ac roedd hyn ar gyfer 2 ddysgwr lefel Uwch. Mae dysgwyr ar y lefel hon yn bwysig i'n nod i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg gan eu bod nhw ar lefel lle gallant ddefnyddio eu medrau iaith at ddibenion gwaith.

4. Gweithredu pecyn cymorth ARFer o 2023 ymlaen er mwyn defnyddio medrau Cymraeg siaradwyr rhugl a dysgwyr o fewn y sefydliad, a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach. (Gweler Atodiad 7 am ddiffiniad o brosiect ARFer).

Oherwydd materion staffio mewnol, ni wnaethom fwrw ymlaen â hyn yn ystod y flwyddyn adrodd. Fodd bynnag, roedd diddordeb sylweddol gan aelodau staff sy'n dymuno cymryd rhan yn y cynllun, ac mae'n parhau i fod yn nod yn ein Cynllun Strategol y Gymraeg 2021-24.

5. Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gyda'r rhai rydym ni'n gweithio gyda nhw, e.e. darparwyr rydym yn eu harolygu, ein hadborth i ymgynghoriadau cyhoeddus ac wrth contractio ag asiantaethau trydydd parti.

Parhaom i ymgysylltu ag ystod eang o ymgynghoriadau cyhoeddus, er enghraifft y Bil Addysg Cyfrwng Cymraeg arfaethedig. Mae ein hadroddiadau arolygu a thematig yn ystyried defnyddio'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r cyd-destunau addysgol hynny ac fe gaiff argymhellion i ddarparwyr eu gwneud yn aml yn yr adroddiadau hynny. Yn ychwanegol, mae ein hadroddiad blynyddol yn amlygu'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu o ran y Gymraeg ar draws yr holl leoliadau addysg sy'n cael eu harolygu gennym ni.

Effaith hyfforddiant Cymraeg

Mae argaeledd hyfforddiant Cymraeg ar gyfer pob un o'n staff yn dangos pwysigrwydd y Gymraeg yn ein sefydliad. Rhoddir gwybod i staff newydd am y cyfleoedd ar gyfer ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg yn eu sesiwn ymsefydlu yn Gymraeg, neu pan fyddant yn gwerthuso eu hanghenion datblygiadol fel rhan o'u hadolygiadau perfformiad parhaus.

Fodd bynnag, mae nifer yr aelodau staff sy'n cymryd rhan mewn gwersi wedi gostwng yn ystod y flwyddyn adrodd (gweler Atodiad 3), ac ni chyflawnom Flaenoriaeth 3 i ddatblygu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr yn ystod y flwyddyn adrodd. Wrth ymateb i'n holiadur Cymraeg i staff, mynegodd dros hanner ohonynt ddiddordeb mewn dysgu Cymraeg neu wella'u medrau Cymraeg presennol. Bydd hyn yn ffurfio sylfaen un o'n blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2024-2025.

Cadw cofnodion

Rydym yn cadw cofnod, trwy ddilyn y flwyddyn ariannol, o nifer y cwynion sy'n ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (p'un a yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau y mae gennym ni ddyletswydd i gydymffurfio â nhw ai peidio).

Yn ystod 2023-2024, derbyniwyd un gŵyn am ein gwasanaethau iaith Gymraeg (i lawr o 3 yn ystod 2022-2023). Gwnaed y gŵyn ym mis Mehefin 2023 ynghylch camsillafiad ar ein gwefan Gymraeg. Gan fod y cyfieithiad wedi cael ei ddarparu'n allanol, fe wnaethom godi'r mater gyda datblygwyr y we a gwnaed y cywiriad. Cafwyd ymateb i'r gŵyn ar 30/06/23.

Rydym yn monitro ansawdd ein gwasanaethau iaith Gymraeg yn agos, ac yn cadw cofnod o'r hyn rydym ni'n ei wneud i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi. Rydym yn cadw cofnod (yn dilyn asesiadau o fedrau Cymraeg), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar fedrau yn y Gymraeg (gweler Atodiadau 1 a 2 isod).

Rydym yn cadw cofnod yn ogystal o nifer a chanran yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu gyrsiau ymwybyddiaeth iaith.

Rydym yn cadw cofnod o nifer y swyddi gwag yr aseswyd bod medrau Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar eu cyfer.

Yn ystod 2023-2024, ymunodd 24 aelod newydd o staff parhaol ag Estyn mewn gwahanol swyddi (11 aelod o staff arolygu ac 13 mewn Gwasanaethau Canolog).

Cynhaliwyd deg ymgyrch recriwtio yn ystod 2023-24:

- Swyddogion Gweinyddol (swyddi generig) – medrau Cymraeg yn ddymunol – roedd 1 o 4 penodai yn siarad Cymraeg
- Swyddog Gweinyddol – (swyddi Cydlynedd Arolygu) - medrau Cymraeg yn hanfodol (1), yn ddymunol (2) – mae 2 o bob 3 phenodai yn siarad Cymraeg
- Gradd 7 – Pennaeth Cyfathrebu, Digwyddiadau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid – medrau Cymraeg yn hanfodol – dim penodiad
- Gradd 7 – Pennaeth Cyfathrebu, Digwyddiadau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid – medrau Cymraeg yn ddymunol – penodwyd rhywun nad yw'n siarad Cymraeg
- Swyddog Gweithredol Uwch (Peiriannydd Cronfa Ddata) – medrau Cymraeg yn ddymunol – penodwyd rhywun nad yw'n siarad Cymraeg
- Swyddog Gweithredol Uwch (Rheolwr Cyfathrebu Digidol) – medrau Cymraeg yn hanfodol – penodwyd siaradwr Cymraeg
- Swyddog Gweithredol Uwch (Rheolwr Adnoddau Dynol) – medrau Cymraeg yn ddymunol – penodwyd rhywun nad yw'n siarad Cymraeg
- Arolygwyr Ei Fawrhydi – medrau Cymraeg yn ddymunol – 1 o 11 penodai yn siarad Cymraeg
- Uwch Swyddog Gweithredol (Uwch Swyddog Cynllunio a Defnyddio) – medrau Cymraeg yn ddymunol – penodwyd rhywun nad yw'n siarad Cymraeg
- Uwch Swyddog Gweithredol (Uwch Reolwr Rhanddeiliaid a Digwyddiadau Hyfforddi) – penodwyd siaradwr Cymraeg

Blaenoriaethau ar gyfer 2024-2025

- 1. Datblygu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr sy'n cyd-fynd yn dda ag anghenion ieithyddol a phroffesiynol unigolion a'r sefydliad.**
- 2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y sefydliad, trwy ddefnyddio medrau iaith cyflogeion, ble bynnag y maent ar y continwmm iaith.**
- 3. Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gyda'r rhai rydym ni'n gweithio gyda nhw, e.e. darparwyr rydym yn eu harolygu, ein hadborth i ymgynghoriadau cyhoeddus ac wrth gontractio ag asiantaethau trydydd parti.**

Atodiadau**Atodiad 1: Nifer a chanran y staff yng ngwasanaethau'r sefydliad sy'n medru'r Gymraeg ar 31 Mawrth 2024 (cyfwerth ag amser llawn)**

- Yn ôl adran
- Yn ôl gradd y swydd

Staff	Nifer y staff ar 31/03/2024	Nifer y siaradwyr Cymraeg ar 31/03/2024	Canran
PAEF	1	1	100%
Cyfarwyddwyr Strategol	2	1	50%
Staff arolygu			
Cyfarwyddwyr Cynorthwyol	6	4	67%
AEF	72	24	33%
Arolygwyr Ychwanegol (secondiadau)	15	5	33%
Cyfanswm y staff arolygu	93	33	35%
Staff Gwasanaethau Canolog			
Cyfarwyddwr Cynorthwyol	2	2	100%
Gradd 7	4	2	50%
Uwch Swyddogion Gweithredol	5	1	20%
Swyddogion Gweithredol Uwch	9	3	33%
Swyddogion Gweithredol	22	4	18%
Swyddogion Gweinyddol	14	2	14%
Cyfanswm staff Gwasanaethau Canolog	56	14	25%
Cyfanswm staff Estyn	138	44	32% (36% yn 22-23 a 34% yn 21/22)

Atodiad 2: Staff arolygu sy'n gallu arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg fel canran o'r holl staff arolygu (cyfwerth ag amser llawn)

	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2024
Staff arolygu sy'n gallu arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg	25	25	25	26	29	28	33
Cyfanswm y staff arolygu	60	64	65	64	72	68	93
Canran	42%	39%	38%	41%	40%	41%	35%

Yn rhannol o ganlyniad i recriwtio 11 Arolygydd Ei Fawrhydi (AEF) a secondiad nifer anarferol o fawr (15) o Arolygwyr Ychwanegol (AY), mae canran y staff arolygu sy'n gallu siarad Cymraeg wedi gostwng yn sylweddol i'r lefel isaf er 2017(34%).

Mae nifer y staff Gwasanaethau Canolog sy'n siarad Cymraeg hefyd wedi gostwng i 25% i lawr o 28% yn 2022-23 a 2021-2022 a 30% yn 2020-21.

Atodiad 3: Hyfforddiant iaith Gymraeg 2023-24

Math	Nifer y staff	Darparwr	Lleoliad	Diwrnodau
Cyrsiau allanol				
Uwch 2	3	Dysgu Cymraeg Morgannwg	Rhithwir	36

Cyfanswm: 3 aelod o staff a 36 diwrnod (4 aelod o staff a 49.5 diwrnod yn 2022-2023)

Atodiad 4: Nifer y staff a dderbyniodd hyfforddiant sefydlu iaith Gymraeg a hyfforddiant penodol trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r holl staff, gan gynnwys staff dros dro neu staff asiantaeth, yn cael hyfforddiant sefydlu ymwybyddiaeth iaith Gymraeg fel rhan o'u rhaglen sefydlu gan yr AEF sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg. Caiff hyn ei amserlennu gan yr adran adnoddau dynol fel rhan o raglen sefydlu staff newydd. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth fras am hanes yr iaith a'i lle yn hanes Cymru, dealltwriaeth o ofynion Safonau'r Gymraeg a dealltwriaeth o'r modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Yn ystod 2023-2024, ymunodd 24 aelod newydd o staff parhaol ag Estyn mewn gwahanol swyddi (11 aelod o staff arolygu ac 13 mewn Gwasanaethau Canolog). Yn ychwanegol, ymunodd 12 Arolygydd Ychwanegol ar secondiad.

Cafodd 10 aelod newydd o staff (1 secondai a 9 aelod o staff Gwasanaethau Canolog) yr hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyflogwyd 18 aelod o staff asiantaeth, a chawsant hyfforddiant (0 trwy gyfrwng y Gymraeg).

Atodiad 5: Dadansoddi sut mae hyfforddiant allanol/ymgysylltu â rhanddeiliaid yn bodloni gofynion iaith Gymraeg cynrychiolwyr

Eleni, cynhaliodd 46 o ddigwyddiadau i gyd; 17 ar-lein, a 29 wyneb yn wyneb. Ar gyfer y digwyddiadau ar-lein, defnyddiodd Zoom a Teams i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd pan roedd angen, a Microsoft Teams i gynnal sesiynau mewn un iaith. Wyneb yn wyneb, fe wnaethom naill ai gynnal sesiynau mewn un iaith neu ddefnyddio cyfieithu ar y pryd, e.e. yn ein digwyddiad i Lansio'r Adroddiad Blynyddol.

Atebodd 587 o gynrychiolwyr ein cwestiwn ynghylch p'un a oeddem yn diwallu eu hanghenion iaith. Dywedodd 583 (99.4%) o'r rhain ein bod yn gwneud hynny. Dim ond pedwar o bobl (0.6%) a atebodd 'na' i'r cwestiwn hwn, sydd fymryn bach yn uwch na ffigur y llynedd, sef 0.5%.


Rhoddwyd y rhesymau canlynol gan y rhai a atebodd 'na':

- Doedd dim lleoedd Cymraeg ar ôl erbyn i'r cynrychiolydd archebu ei le (hyfforddiant diweddarau blynyddol)
- Cafodd sesiwn Gymraeg ei chanslo oherwydd niferoedd isel a doedd dim lleoedd eraill ar gael yn Gymraeg (hyfforddiant diweddarau blynyddol)
- Ni adawodd dau gynrychiolydd unrhyw gyd-destun na rhesymau dros eu hateb, ac efallai eu bod wedi clicio ar yr ateb anghywir (hyfforddiant diweddarau blynyddol, hyfforddiant cychwynnol AC)

Ffrydiau byw

Eleni, parhaom i gynnal sesiynau holi ac ateb wedi'u ffrydio'n fyw ar-lein, trwy dudalen we deilwredig gan ddefnyddio cwmni cynhyrchu. Darparom gyfieithiad o'r Gymraeg i'r Saesneg ar bob sesiwn, ac annog panel AEF i ddefnyddio cymaint o Gymraeg ag y bo modd. Fodd bynnag, roedd hyn yn amrywio, yn dibynnu ar aelodau'r panel.

Parhaom i gael problemau â chynhyrchu'r fersiynau o'r fideo ag is-deitlau llawn yn y ddwy iaith ar ôl y digwyddiad. Fodd bynnag, mae'r tîm Cyfathrebu wedi ehangu yn ddiweddar, ac yn cynnwys mwy o aelodau sydd â mwy o brofiad o olygu fideos erbyn hyn, yn ogystal â mwy o siaradwyr Cymraeg, a ddylai helpu i sicrhau bod hyn yn cael ei gwblhau'n gyflymach.




Atodiad 6: Ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae Estyn yn cyfathrebu'n ddwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r siartiau isod yn dangos y ganran sy'n gweld negeseuon yn Saesneg (EstynHMI) ac yn Gymraeg (EstynAEF).

Argraffiadau X - (Mae argraffiadau yn cynnwys nifer yr adegau y cafodd unrhyw gynnwys o X ei arddangos ar sgrin person)

Yn ystod 2023-2024, cyfanswm nifer yr argraffiadau X Cymraeg (EstynAEF) oedd 78,168, sy'n gynydd o 36% o'r flwyddyn flaenorol, sef cyfanswm o 57,475 o argraffiadau.


Yn ystod 2023-2024, cyfanswm nifer yr argraffiadau X Saesneg (EstynHMI) oedd 480,266, sy'n gynydd o 27.3% o'r flwyddyn flaenorol, sef cyfanswm o 377,232 o argraffiadau.



Cyfradd Ymgysylltu ar X -

Yn 2023-2024, roedd y gyfradd ymgysylltu ag EstynAEF yn 2.3%, sy'n gynydd o 33% o 2022-2023 lle roedd y gyfradd ymgysylltu yn 1.73%

Yn 2023-2024, roedd y gyfradd ymgysylltu ag EstynHMI yn 3.08%, sy'n gynydd o 31% o 2021-2022 lle roedd y gyfradd ymgysylltu yn 2.34%




Er bod EstynHMI yn perfformio'n well nag EstynAEF, mae'r gyfradd ymgysylltu ar EstynAEF uwchlaw safon diwydiant. Yn ôl Hootsuite (2024), y gyfradd ymgysylltu gyfartalog ar gyfer y sector addysg yw 1.10%. Mae hyn yn dangos, er nad yw'n cael yr un gyfradd ymgysylltu o gymharu â'n sianel Saesneg, ei fod yn perfformio'n well na'r cyfartaledd o hyd ar draws y diwydiant.

Facebook

Roedd y gyfradd ymgysylltu ar Estyn HMI yn 9.49% yn y cyfnod hwn, 85,849 o argraffiadau, ac yn cyrraedd 80892 o ddefnyddwyr.

Roedd y gyfradd ymgysylltu ar Estyn AEF yn 2.69% yn y cyfnod hwn, 33,155 o argraffiadau, ac yn cyrraedd 35,842 o ddefnyddwyr.

Er bod y gyfradd ymgysylltu hon yn is na'r dudalen Facebook Saesneg, mae'r gyfradd ymgysylltu hon wedi cynyddu er 2021-2022 o 40% pan oedd y gyfradd ymgysylltu yn 1.92%, sy'n gynydd cadarnhaol.



Youtube

Caiff yr holl fideos eu cyhoeddi'n ddwyieithog ar sianel Youtube Estyn. Yn 2023-2024, cafodd cyfanswm o 32 o 65 fideo eu cyhoeddi yn Gymraeg (mae hyn yn cynnwys fideos Saesneg gydag is-deitlau Cymraeg yn unig).

Gwelwyd y fideos Cymraeg 2294 o weithiau allan o gyfanswm o 18,300.

Nifer yr argraffiadau Cymraeg oedd 19366 allan o gyfanswm o 103,200.

